ADR0DDIAD Y CADEIRYDD
DYDD IAU, MEHEFIN 27ain, 2024

Noswaith dda i chi i gyd a chroeso i gyfarfod blynyddol Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth.
Mae'n bleser cael adrodd bod y Neuadd yn brysur dros ben, yn wir yn llawer iawn prysurach nag y bu ers rhai blynyddoedd. Mae mwy a mwy o geisiadau yn dod i law parthed llogi yr ystafelloedd yn y Neuadd ac fel canlyniad, mae ein sefyllfa ariannol yn bur llewyrchus. Bu derbyn grantiau yn ystod cyfnod y Covid yn gymorth mawr i ni ac yn ddiweddarach, grantiau gan y National Grid a Rebecca.
Oherwydd y prysurdeb yn y Neuadd, penderfynwyd cyflogi person arall i gynorthwyo Chris Williams gyda'r glanhau a gofalu. Mae Chris wrth ei waith ar ddydd Llun ac mae Des Jones yma ar ddydd Iau. Mae'r trefniant yma i weld yn gweithio yn dda i sicrhau bod y Neuadd mewn cyflwr glan a derbyniol ar gyfer y defnyddwyr o un pen i'r wythnos i'r llall. Yn ogystal, anfonwyd llythyr ynghyd a rhestr o delerau ac amodau at bawb sy'n gwneud defnydd o'r lle. Mae'r gwair yn cael ei dorri a'r ffenestri yn cael eu glanhau yn rheolaidd. Mae'r goleuadau, y larymau a'r offer atal tân yn cael eu profi a'r offer trydanol yn cael profion PAT yn flynyddol. Mae'r sefyllfa gadarnhaol yma yn bodoli hefyd oherwydd bod yma bwyllgor rheoli o ymddiriedolwyr gweithgar, ymroddgar a dibynadwy,sy'n rhoi eu hamser yn ddiflino tuag at rediad effeithiol a threfnus y sefydliad a phawb yn gwneud hynny yn wirfoddol. Diolch amdanynt.

Fel y gwyddoch, mae'r neuadd yn 100 oed y flwyddyn nesaf. Mae'r adeilad yn mynd yn hŷn a rhaid sicrhau bod gennym arian wrth gefn i'w chynnal a'i chadw fel ei fod yn ffynnu am flynyddoedd i ddod. Mae'n adnodd gwerthfawr yn y gymuned, gyda llawer un yn ei chanmol pan maent yn dod yma am y tro cyntaf.
Dyma a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynnal, cadw ac uwchraddio yr adeilad.
Paentio yr ystafell gefn a gosod ffenestri newydd yna.
Plastro a phaentio y ddau allanfa dân a phaento y waliau yn y fynedfa i'r ystafell gefn.
Carped newydd yn yr ystafell gefn a gorchudd ar lawr y gegin fach.
Tynnu yr hen 'boiler´o'r gegin fach gefn.
Trwsio yr urinals yn nhoiledau y dynion.
Sychwyr dwylo newydd yn y toiledau.
Gwresogydd arall yn Ystafell Sbardun.
Ffens newydd ar hyd yr ochr chwith y tu allan i'r Neuadd.
Landeri newydd ar yr adeilad.
Goleuadau argyfwng ychwanegol.
System sain newydd.
Glanhawr carped shark.

Teimlaf yn sicr mai gwaith diflino a threfnus yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am ffyniant y Neuadd.
Mawr yw fy niolch i chi am eich ymroddiad ac am roi cymaint o'ch amser yn wirfoddol i Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth.
Diolch o galon!!

Morwen Pritchard
Cadeirydd.

Morwen Pritchard -

NEUADD GOFFA PENRHYNDEUDRAETH

Cyfrifon blwyddyn diweddu 31 Mawrth 2023

		£	£
INCWM			
Rhoddion		4846.82	
Llogi y neuadd		17485.00	
Apel Ukraine		2853.70	
Llog banc		150.85	25336.37
Yn y banc : 01/04/2022	Cyfredol	3447.23	
	Cadw	18425.80	
	Sbardun	4379.06	
	Apel Ukraine	2241.93	28494.02
Cyfanswm			53830.39
GWARIANT			
Cyfleustodau		3500.16	
Yswiriant		1339.68	
Glanhau		337.60	
Anrhegion Cyn Aelodau		105.00	
Cost Audit		60.00	
Snowdonia Fire and Protection		224.12	
Arwyddion		400.80	
Cynnal a chadw		4147.38	
Apel Ukraine		5095.63	
Teipio		35.00	
Costau Banc		186.66	15432.03
Yn y banc 01/04/2023	Cyfredol	1975.98	
	Cadw	30915.64	
	Sbardun	5506.74	38398.36
Cyfanswm			53830.39

16.5.23

Adroddiad archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr yr elusen Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon elusen Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth (yr Elusen) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr elusennol yr Elusen, rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Elusen a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145 (5) (b) o'r Ddeddf. .

Datganiad yr arholwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy arholiad. Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r arholiad sydd yn rhoi achos imi gredu mewn unrhyw ffordd berthnasol:

1) ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r Elusen fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu

2) nid yw cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion hynny; neu

3) nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys sy'n ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg nad yw'n fater sy'n cael ei ystyried fel rhan o arholiad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw ato yn yr adroddiad hwn er mwyn galluogi cyrraedd dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

Llofnodwyd:

Enw: Maldwyn Jones

Cymhwyster proffesiynol perthnasol: BSc (Anrh) ACIB

Cyfeiriad: Manaros, 3 Holborn, Stryd Fawr, Nefyn, Gwynedd LL53 6HD

Dyddiad: 10 Chwefror 2025